Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru / For learners, for Wales

Ysgol Min-Y-Ddol
Lon Plas Kynmaston
Cefn Mawr
Wrexham
LL14 3PY

13/01/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Min-Y-Ddol yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion, yn enwedig ar frig yr ysgol

- Mae gan arweinwyr weledigaeth briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Maent wedi rhannu’r weledigaeth hon yn glir gyda staff a disgyblion ac, o ganlyniad, mae’r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn gyson.
- Mae staff yn elwa o gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol, fel cydweithio gydag ysgolion lleol i sefydlu gweithdrefnau cynllunio ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau darpariaeth cydlynus sy’n diwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol.
- Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu datblygu medrau llafaredd disgyblion yn bwrpasol, er mwyn eu cefnogi i ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith yn gywir wrth ysgrifennu.
- Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda lefel dda o gywirdeb. Maent yn adnabod prif nodweddion testunau’n graff ac yn dewis geirfa yn fwriadus i ysgrifennu at wahanol ddibenion.
- Maent yn ymateb i adborth athrawon yn bwrpasol, yn bennaf trwy gywiro gwallau neu ychwanegu testun pellach.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu’r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus, er ychydig sy'n defnyddio arddull llawysgrifen glwm yn rheolaidd.
- Mae medrau mathemateg disgyblion yn datblygu'n addas. Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol a dulliau cyfrifo. Ar y cyfan, mae'r profiadau dysgu mewn sesiynau mathemateg yn diwallu anghenion llawer ohonynt yn briodol. Yn yr arferion gorau, mae cwestiynu meistrolgar yn cefnogi disgyblion i feddwl yn feirniadol am eu gwaith ac i gyfiawnhau eu hymatebion a'u datrysiadau i broblemau yn fwriadus.
- Mae athrawon yn darparu ystod ddefnyddiol o adnoddau sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau mathemateg yn dda. Mae disgyblion yn dewis adnoddau'n annibynnol ac yn eu defnyddio'n fedrus, pan fo'r angen.
- Mae arweinwyr yn cydnabod bod lle i gryfhau'r ddarpariaeth trwy gynnig mwy o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd ar y lefel briodol, y tu hwnt i sesiynau iaith a mathemateg.

## Gwella prosesau hunanwerthuso er mwyn arfarnu safonau disgyblion a datblygu dulliau mwy effeithiol o werthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella

- Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu broffesiynol sy'n myfyrio ar eu harferion yn fedrus er mwyn gwella'n barhaus.
- Mae gan arweinwyr ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso i gefnogi prosesau gwella'r ysgol sydd wedi gwreiddio dros amser.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso elfennau o'r ddarpariaeth yn graff, gan gynnig cymorth a her i staff er mwyn cryfhau'r arferion ymhellach, er enghraifft wrth arwain hyfforddiant ar lefelau her priodol mewn gweithgareddau dysgu annibynnol. At ei gilydd, maent yn pennu blaenoriaethau gwella priodol.
- Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar y dysgu trwy ddefnyddio data olrhain cynnydd disgyblion i adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu.
- Mae arweinwyr yn cynnwys athrawon yn y broses hunanwerthuso yn fuddiol. Maent yn adnabod meysydd i wella o ran y ddarpariaeth yn briodol, ac yn dechrau canolbwyntio ar ddeilliannau disgyblion, gan ddefnyddio continwwm medrau yr ysgol.
- Mae'r llywodraethwyr cyswllt ar gyfer pob blaenoriaeth strategol yn cryfhau eu dealltwriaeth o'u meysydd cyfrifoldeb trwy weithgareddau ymgysylltu addas.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6652162

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol